Newyddion Mis Mawrth 2011

Cinio Pen Tymor y Gymdeithas - 31 Mawrth 2011

'Roedd panorama'r ddinas i'w weld yn glir o'r Ystafell Fwyta wrth inni ymgynnull yn gwmni llawen yng Nghlwb Golff Llanisien heno. Mae'n arfer gennym bellach ddirwyn Rhaglen y Gaeaf i ben trwy gynnal Cinio Pen Tymor, cyn cymryd hoe fach dros fisoedd yr haf. 'Roeddem yn edrych ymlaen at yr achlysur a'r cyfle i groesawu'n siaradwyr gwadd, **Rhiannon a Havard Gregory** - dau o hoelion wyth yr achos yn Minny Street, a'u personoliaethau lliwgar wedi cyfoethogi cymdeithas yr Eglwys ers iddynt ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae Rhiannon a Havard yn frwd eu cefnogaeth i bopeth Cymreig, a bywyd Cymraeg y brifddinas wedi elwa ar ei ganfed o'u cymwynasgarwch.



Cafodd y ddau blentyndod tra gwahanol i'w gilydd. Yn ferch i'r actor Ieuan Rhys Williams, magwraeth "symudol" gafodd Rhiannon wrth i'r teulu fudo rhwng gogledd a de, gan ddibynnu ar waith ei thad. Yn fab Y Mans, cafodd Havard yntau ei eni a'i fagu yn Cymer, ger Porth (Llun: Caersalem yr Annibynwyr, Cymer), ac er iddo'n ddiweddarach dreulio cyfnodau yn Lloegr, Llydaw a'r Swistir, nid anghofiodd mo'i wreiddiau yng Nghwm Rhondda.

Meddiannu ystafell 'Lawrence o Arabia (Llun: Lawrence o Arabia 1888 – 1935)' yng Ngholeg yr

Iesu, Rhydychen; teithio America yn lleisio *Dan y Wenallt* (Dylan Thomas); ciniawa droeon gyda Bertrand Russel yn ei gartref ym Mhlas Penrhyn; dyna rai o'r atgofion oedd yn britho sgwrs Havard Gregory wrth iddo godi cwr y llen ar ei fywyd diddorol. Ond yn anad dim cofio cyni a thlodi Cwm Rhondda'i febyd, a dylanwad William Thomas yr hynafgwr mwyn o Cymer fu'n ddiacon yn Eglwys Minny Street, wna Havard wrth gymryd ei le yn y set fawr o Sul i Sul.

'Roedd goleuadau'r ddinas yn diffodd o un i un wrth i ni droi am adref wedi treulio noson hwyliog yng nghwmni'n gilydd. Diweddglo teilwng i weithgareddau'r gaeaf.

Munud i Feddwl – 30 Mawrth 2011

"Mae dy wirionedd di - beth bynnag yw -, yn gyfwerth â'm gwirionedd i - beth bynnag yw hwnnw!" ***Rhyddid mynegiant barn*** - un o bennaf rhinweddau ein Diwylliant Gorllewinol! Ai da a chanmoladwy yr hyn ddigwyddodd yn Llundain Dydd Sadwrn? Cynnig y Gweinidog y fagwrfa orau i feithrin hunan-barch a pharch at eraill yn ei Funud i Feddwl wythnosol.

Cariad: Trydydd Sul y Grawys - 27 Mawrth 2011

Cawsom y fraint o gael ein cyflwyno gan y Parchedig Ddr Noel Davies i Minnie yn Oedfa'r Bore! Er yn swil o ran ei natur, ac ond yn cyfathrebu trwy sibrwd yng nghlust ei gwarchodwr, llwyddodd Minnie i'n cael, fel cynulleidfa, i ddysgu adnod! Yr adnod gyntaf a gyflwynwyd gan y plant oedd "*Duw Cariad yw*" (1 Ioan 4:16) a thrwy ddatblygu thema Cariad bu Minnie wrthi yn dysgu'r plant a'r plantos yn y Sêt Fawr, ynghyd â gweddill y gynulleidfa: *"Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab*" (Ioan 3:16a). O ddysgu'r geiriau hawdd wedyn oedd canu gydag arddeliad geiriau Ben Davies (1864-1937), *"Cariad Iesu Grist, cariad Duw yw Ef: …*" (C.Ff. 387) Fe'n swynwyd gan Minnie a diolchwn i'r Pregethwr Gwadd am gael dod i'w hadnabod. Ar ôl prysurdeb hyfforddi'r plant aeth Minnie yn ôl i gysgu am weddill yr oedfa!

Hanes y Pasg oedd thema defosiwn y Bobl Ifanc ar ddechrau'r Oedfa. Dyna hefyd oedd sail y gwaith yn nosbarthiadau'r Ysgol Sul. Trafod ***Cyfnod y Grawys*** bu'r Bobl Ifanc yn ei wneud. Beth yw'r Grawys? Pam ei ddathlu? A ddylem fel eglwysi anghydffurfiol roi mwy o sylw i'r Grawys? Ai da o beth yw penderfynu rhoi rhywbeth heibio dros gyfnod y Grawys? Beth yw ein hymateb i gael ein temtio - gan bethau, gan eraill a gennym ein hunain? Neilltuwyd cyfnod byr hefyd i ddymuno'n dda i Manon, Enlli a Sioned a fydd yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau o Eglwys Minny Street yn Oedfa'r Bore yr wythnos nesaf. Dysgu am arwydd y ***Groes*** bu'r plant yn ei wneud dros gyfnod yr Ysgol Sul. Aethant ati yn frwdfrydig i drafod ystyr y Groes i Gristnogion, ynghyd â chreu modelau a lluniau o groes i'w hatgoffa o bwysigrwydd y Groes, yn arbennig adeg y Pasg.

Hanes Iesu a Nicodemus (Ioan 3: 1-17) oedd cnewyllyn neges ein Pregethwr Gwadd, hanes sydd yn arwain i'r geiriau a ddysgwyd ar ddechrau'r Oedfa yng nghwmni'r plant (Llun: Nicodemus gan John LaFarge (1835-1910). Fe'n hatgoffwyd pwy oedd Nicodemus; aelod blaenllaw o Gyngor yr Iddewon, Athro, gŵr a oedd yn gwarchod traddodiadau Israel. Daeth at yr Iesu *"liw nos*" (Ioan 3:2) - efallai nad oedd am i eraill ei weld yn dod at Iesu. Dod o'r tywyllwch i chwilio am, a holi'r un oedd yn "*oleuni'r byd*" (Ioan 8:12). Yn ei ateb dywed Iesu: *"oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd"* (Ioan 3:3), hynny yw ei eni *"o ddwr a'r Ysbryd*" (Ioan 3:5); dwr y bedydd yn cydnabod gras Duw ym mywyd yr ieuengaf a'r hynaf, a rheidrwydd i'r Ysbryd Glân fod yn ein bywydau. Rhaid i ninnau felly ofyn a ydyw Duw wedi bod ar waith yn ein bywydau, yn ein hadnewyddu? A

ydym yn rhoi rhyddid, gofod a lle i Dduw yn ein bywydau, er mwyn i Dduw gael ein trawsnewid, ein hadnewyddu, ein trawsffurfio a'n chwyldroi? Trwy ddarlun byw a gwir o'r Ysbryd Glân fel gwynt sylweddolwn fod Iesu yn ein haddysgu bod unrhyw drawsnewid yn digwydd oherwydd bod grym Cariad Duw yn chwythu trwom. *"**Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab***". Her y Grawys a'r Pasg, a phob dydd o'n bywyd, yw bod Duw, yn Iesu Grist o hyd yn cynnig i ni'r posibilrwydd o fywyd newydd. Rhed grym ac egni gwyrth Cariad Duw i'n bywyd yn ddyddiol - fe'n gadawyd i hunanholi, a glywaf i swn y gwynt?

Cawsom hefyd gyfle i barhau ar ein Taith Grawys fore heddiw. Geiriau Jeremeia oedd yn ein tywys: *"Fel hyn y dywed yr Arglwydd: "Safwch ar y ffyrdd; edrychwch, ac ymofyn am yr hen lwybrau. Ple bynnag y cewch ffordd dda, rhodiwch ynddi, ac fe gewch le i orffwys."* (Jeremeia 6:16). Wrth sôn am yr *'hen lwybrau*' symledd yr hen berthynas agos â Duw yn nyddiau'r daith trwy'r anialwch sydd ym meddwl y proffwyd - Duw â'i bobl yn cydgerdded. Daethom ninnau i **groesffordd** ac yma cawn gyfle i ddewis ffordd sydd, yng ngeiriau Jeremia, yn adfer symledd i grefydd. Yng nghanol annibendod di-ben-draw heddiw cynnig symlrwydd bendigedig mae'r Efengyl. Crist yw'r groesffordd, ac efe hefyd yw'r ffordd sy'n arwain i'r bywyd. Wrth fyfyrio ar y geiriau cawsom gyfle i gynnau cannwyll gweddi, a chyflwyno aelod o'r teulu neu gyfaill sydd heddiw'n sefyll wrth groesffordd, neu, ni'n hunain os dyna ein sefyllfa, i ofal Duw.

Aros gyda thema Cariad a wnaethom yn Oedfa'r Hwyr wrth i ni ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys y Tabernacl. Y Parchedig Peter Dewi Richards, gweinidog Eglwys Gymraeg Canol Llundain, oedd y Cennad a seiliodd ei fyfyrdod ar yr adnodau cyfarwydd o Efengyl Ioan "*Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion ...*" (Ioan 15: 15)sydd yn sôn am Iesu fel y gwir winwydden. Gan gymryd "**Yr *ydych chwi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wy'n ei orchymyn ichwi***" (Ioan 15:14) fel testun, tynnodd y Pregethwr ein sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y gymdeithas o'n cwmpas yn gweld '**undod**' ein Ffydd. Gellir meddwl am gyfaill fel 'rhywun a ddaw i mewn pan fydd pawb arall yn mynd allan'; dyna'r berthynas fyw sydd rhyngom ni â Christ, a dyma'r berthynas sydd angen i ni ei harddangos i'r gymuned, a'r byd, o'n cwmpas! Ond mae yna amodau i'r cyfeillgarwch - sylwer ar yr '***os***' yng nghanol adnod y testun. Gofynnwyd a ddylid symud yr 'os' i ddechrau'r adnod? Hynny yw, os ydym gyfeillion i Iesu yna fe wnawn yn ôl ei orchymyn! Yn y berthynas hon deuwn hefyd o hyd i wirioneddau mawr - *"bob peth a glywais gan fy Nhad."* (Ioan 15: 15) Onid dyna sydd ei angen arnom yn 2011? Ac yn olaf, *"Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion"* (Ioan 15:13) - nid *eros* (serch) na *philia* (cariad brawdol) sydd yma ond ***agape***, cariad dwyfol. Dyma, felly, gwblhau'r cylch a gychwynnwyd yn Oedfa'r Bore yng nghwmni'r plant - *"Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab"*; neges Oedfa'r Hwyr, wedyn, yn ein hatgoffa o nodweddion cariad perthynas cyfeillion yr Iesu.

Bu cynrychiolwyr o Eglwys Minny Street wrthi yn Festri'r Tabernacl yn ystod y prynhawn yn cynorthwyo gyda **the i'r digartref**. Daw bendith fawr i'r rheini sydd naill ai'n paratoi brechdanau ymlaen llaw, neu weini a sgwrsio â'r digartref; profiadau sy'n agoriad llygad ac yn addysg o'n gwir sefyllfa gymdeithasol yng Nghaerdydd. Hawdd iawn, wrth eistedd i lawr i ginio traddodiadol Sul, yw anghofio am y rheini sydd, yn aml, am resymau ymhell o fod o fewn eu rheolaeth, heb gyfle am loches, cwpaned o de a brechdan. Cynnig y **Cylch Dinasyddiaeth**, trwy'r gweithgarwch hwn a Banc Bwyd Caerdydd, gyfle unigryw i ni yn Eglwys Minny Street *"weld pob mab i Ti yn frawd i mi, O Dduw."* (E A Dingley (1860-1948) *cyf.* Nantlais (1874-1959) *C.Ff.* 805)

Cylch Dinasyddiaeth: Cinio Cawl Cynnil – 25 Mawrth 2011

Pys, moron a sinsir, pannas a lobscows o'r iawn ryw! Dim ond rhai o'r gwahanol fathau o gawl a gynigiwyd i aelodau a chyfeillion Eglwys Minny Street amser cinio heddiw yn y **Cinio Cawl Cynnil**. Ymuno gwnaethom, fel Eglwys, â thorf o gyd-Cristnogion ar draws gwledydd Prydain mewn Cinio Cawl tra ar yr un pryd helpu i drechu tlodi. ***Cymorth Cristnogol*** oedd yn cydlynu'r digwyddiad a gyda'r cyfraniadau ariannol a wnaed heddiw gobeithiwn am fywydau esmwythach i unigolion a theuluoedd gwledydd tlotaf ein byd. Gwyddom, er enghraifft, bod teuluoedd, megis Teulu'r Katiku (gweler llun) sy'n byw ynghanol sychdir Dwyrain Kenya, mewn pentref bach o'r enw Usugu, wedi elwa o **Ddiwrnod Cinio Cawl 2010**. Trwy gymorth un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, Gwasanaethau Cymuned Gristnogol Ukamba (*UCCS*), bu'n bosibl i aelodau'r teulu dyfu cnydau yn 2010 ar waethaf y ffaith nad oes glaw wedi disgyn ers pedair blynedd.

Wrth fwynhau'r amrywiaeth o gawl cawsom hefyd wybod am ymgyrch ddiweddaraf Cymorth Cristnogol - ***Ar Drywydd y Dreth***. Ar draws ein byd mae cannoedd o filiynau o ddinasyddion yn brwydro byw: 2.6 biliwn heb unrhyw systemau carthffosiaeth; 1.1 biliwn heb ddwr ffres ac iach i'w yfed; 270 miliwn o blant heb wasanaeth meddygol digonol a 72 miliwn o blant oed cynradd heb addysg. Tra bo hyn yn digwydd mae nifer o'r cwmnïau mawr rhyngwladol yn osgoi talu'r trethi priodol trwy ddegau o ffyrdd sydd, ar yr wyneb, yn ymddangos yn gwbl gyfreithlon. Pe byddai gwledydd llai-datblygiedig y byd yn derbyn yr

arian sy'n foesol-ddyledus iddynt byddent yn medru sicrhau gwell gwasanaethau iechyd, carthffosiaeth ac addysg i'w trigolion.

Sheikh Said Hassan Ismail – 24 Mawrth 2011

Tristwch mawr i ni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth Sheikh Said Hassan Ismail yn 81 oed. Bu ***PIMS*** dwywaith ar ymweliad â Chanolfan Fwslimaidd De Cymru, lle 'roedd Sheikh Said yn Imam y mosg yno. Gwr hynaws a charedig ydoedd, yn falch iawn o'i grefydd, ac o'r herwydd yn barchus o grefydd eraill. Duw a fo'n blaid i'w deulu, ac i'r gymuned Fwslimaidd yn Nhrebiwt. Edrych yn ôl a diolch am fywyd Sheikh Said a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl.**

Myfyrdod y Grawys – *Y Grawys a'r Mab* – 24 Mawrth 2011



Wedi ystyried ***Cariad Duw'r Tad*** yn y cyntaf o'r gyfres o Gyfarfodydd y Grawys o dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, cafwyd cyfle heno i fyfyrio, o dan arweiniad Carys Whelan, ar ***Gariad y Mab***. A hithau'n Wyl Fair y Cyhydedd yfory, addas oedd cychwyn ein cyfarfod, yn nhraddodiad Eglwys Rhufain, mewn Gosber gwylnos yr wyl wedi ei seilio ar Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46- 55). Wrth ein hatgoffa bod y gair gwreiddiol Cymraeg *C(a)rawys* wedi ei wreiddio, fel y Wyddeleg (*Carghas*), yn y Lladin *quadregesima*, sef y 'deugeinfed', canolbwyntiwyd ein meddyliau ar bedair '**G**': **Gras**, **Gwrando**, **Gweddïo** a **Gobaith**. Trwy Iesu derbyniwn Ras Duw; ein braint yw gwrando ar Lais yr Athro; trwy weddi daw gwellhad; ac fe'n gweddnewidir yng ngobaith yr Arglwydd.

Cyn diwedd y cyfarfod cyfeiriwyd ein camau ysbrydol a chorfforol at draddodiad, dieithr i ni fel anghydffurfwyr, Gorsafoedd y Groes; 14 digwyddiad yn nhaith olaf yr Arglwydd Iesu o'r man lle cafodd ei ddedfrydu i farwolaeth i'r man lle cafodd ei gladdu. Gan ddefnyddio pedwar llun a phedair gweddi a cherdd, cawsom gyfle i gerdded o gwmpas capel Eglwys Bethel, Rhiwbeina a threulio ychydig funudau yn ystyried yr hyn a gyflwynwyd: darn o waith yr artist Cristnogol Iain McKillop (g. 1954) oedd y cyntaf gyda geiriau cyfarwydd Teresa o Avila (1515-1582) a Ffransis o Assisi (1181-1226); llun enwog Holman Hunt (Llun: The Light of the World gan William Holman Hunt (1827-1910)) a Gweddi Cardinal Newman (1801-1890); llun o wyneb Amdo Turin a Gweddi Feunyddiol Richard o Chichester (1197-1253) yn drydydd; a llun Salvador Dali (Llun: Christ of Saint John of the Cross gan Salvador Dali (1904-1989)) a cherdd bwerus R S Thomas (1913-2000), *The Coming*, yn dod a'r daith i'w therfyn.

Bydd cyfarfod nesaf Myfyrdodau'r Grawys yng nghapel Eglwys Ebeneser ar **Nos Iau, 7 Ebrill 2011**. *Y Grawys a'r Ysbryd Glan* bydd yn ennyn ein sylw'r noson honno.

Genedigaeth - 23 Mawrth 2011

Croeso cynnes i **Megan** a anwyd heddiw i Lisa a Sacha Kenny; wyres gyntaf i Moyra a Peter Greaney. Dymuniadau da i'r teulu.

Munud i Feddwl – 23 Mawrth 2011

Siapan a Libya … Trychineb a Thrais … … Gweddi ac Addoliad? Marwolaeth Ioan Fedyddiwr … Porthi'r Pum Mil … Cerdded ar y Dwr. Beth sydd a rhain i gyd i'w gwneud â'i gilydd? Darllenwch **Munud i Feddwl** y Gweinidog ac fe ddaw goleuni!

PIMS: Y Samariad Trugarog – 21 Mawrth 2011

Wedi bod yn trafod gwaith Cymorth Cristnogol yng Nghambodia bythefnos yn ôl addas oedd treulio amser heno yn astudio Dameg y Samariad Trugarog (Llun: The Good Samaritan gan He Qi (1955 -)). Creu eglureb ffigurol oedd y dasg: llinell llorwedd yn cynrychioli'r dyn a ymosodwyd arno; dwy linell unionsyth yn cynrychioli'r Offeiriad a'r Lefiad a gerddodd heibio; llinell wedi ei chamu yn symbol o'r Samariad yn plygu at angen yr hwn a ddoluriwyd; dau (2) ddarn arian sef cost y gwesty; ac o gwmpas y cyfan, cylch crefydd - y byd yn gyfan yn ein hatgoffa bod rhaid i'n cariad a'n tosturi estyn allan dros y byd mewn gofal a thosturi.

"*Dos, a gwna dithau yr un modd*" (Luc 10: 37) - holwyd beth yw neges y ddameg? Pwy, heddiw, yw'r *"dyn a syrthiodd i blith lladron"* (Luc 10:30)? Pwy yw'r Offeiriad, y Lefiad a'r Samariad Trugarog? Sut fedrwn ni fod yn drugarog wrth eraill? Fel arfer, cafwyd sylwadau treiddgar a phellgyrhaeddol. Dameg y Samariad Trugarog yn 2011? Hanes am ddisgybl ysgol yn dioddef o fwlio. Ei ffrindiau yn gwrthod, am wahanol resymau, dod i'r adwy; y disgybl annisgwyl yn dod i weld a oedd popeth yn iawn. Cariad Crist mewn dameg gyfoes yn fyw ar iard ysgol yng Nghaerdydd yn 2011.



Mae yna, wrth gwrs, gryn edrych ymlaen ymysg ***PIMS*** am Oedfa Fore Sul cyntaf Ebrill! Pryd hynny bydd tair o aelodau ***PIMS*** yn cael ei derbyn yn gyflawn aelodau o'r Eglwys. Mae Enlli, Manon a Sioned wedi mynychu bron pob cyfarfod o ***PIMS*** ers dechrau yn yr Ysgol Uwchradd a thrwy'r hyfforddiant a ddaeth yn sgil y ffyddlondeb hwnnw bellach yn teimlo awydd i'w derbyn yn ffurfiol fel rhan o'r eglwys sy'n cyfarfod yn Minny Street. Heno oedd eu cyfarfod olaf cyn y Sul Derbyn; gyda'i gynorthwywyr yn gofalu am y gweddill treuliodd y Gweinidog y noson mewn sgwrs anffurfiol â'r tair yn trafod cwestiynau, bach a mawr, am y Ffydd, aelodaeth Eglwys a chyfrifoldeb Cristnogol.

Bydd cyfarfod nesaf ***PIMS*** yn ymweld â siop Siopa Teg yn Nhreganna; cyfle i glywed am hanes sefydlu'r siop ac egwyddorion Masnach Deg.

Siapan a Libya, Y Cyfrifiad a Sicrwydd Gofal Duw: Ail Sul y Grawys – 20 Mawrth 2011

Ein harwain i weddïo dros Libya a'i phobl wnaeth y Gweinidog ar ddechrau ein dwy oedfa heddiw: *"Gwelsom yr awyrennau yn codi, a'r taflegrau'n disgyn wrth i luoedd arfog y Gorllewin ymosod ar gadarnleoedd Gadaffi yn Libya. Yng nghysgod y newyddion am Libya, beth wnawn ni yn yr oedfa hon? Gweddïo. Gweddïo trosom ein hunain, ein harweinwyr gwleidyddol; gweddïo dros bobl Libya; gweddïo. Gweddïo mae diwedd y tensiynau diweddar yn Libya fydd canlyniad yr ymosodiadau hyn, nid dechrau gwrthdaro hirdymor arall rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain Canol; gweddïo. A ydyw gweddïo'n gwneud gwahaniaeth? Credaf fod gweddi a gweddïo yn gwneud byd o wahaniaeth. Gall gweddi ymddangos yn eiddil iawn o'i gymharu â thaflegrau a gynnau, ond credaf mai gweddi yw grym yr holl rymoedd. Cred llawer mai gwag ac oer y bydysawd a bod grym milwrol yn ddiogelwch, yn gadernid ac yn obaith. Fel Pobl Dduw credwn yn Nuw. Duw sydd yn llond pob lle, ac yn bresennol ym mhob man - Caerdydd, Tokyo a Tripoli. Duw sydd yn caru ei bobl - ei bobl i gyd. Dyma ein gobaith - y gobaith a ddaw o wybod nad yw'r bydysawd yn fyddar i'n gweddïau gwan; y gwybod nad ofer ein hymdrechion dros gymod a chariad - oherwydd mai'r gweddïau hyn, yr ymdrechion hyn i gyd ynghlwm wrth fwriad Duw ar ein cyfer: cymod a brawdgarwch. Dyma pam mae gweddi mor allweddol bwysig ar adegau fel hyn - bydd natur y gweddïau a offrymir heddiw yn lliwio a llywio yfory ein byd."*

'Roedd defosiwn Plant yr Ysgol Sul wedi ei seilio ar Hanes y Pasg; yn eu gweddi cyfeiriwyd at ddigwyddiadau *Comic Relief* Ddydd Gwener a'r dioddef enbyd sy'n wynebu cymaint o blant yng ngwledydd Prydain ac ar draws y byd. Cafwyd hefyd gyfeiriad at Siapan yn eu gweddïau. Cofio am eraill bu'r Gweinidog yn ei wneud yn ei sgwrs â'r plant. Atgoffwyd pawb o drychineb Siapan - y daeargryn, y tsunami, y datblygiadau yn y gorsafoedd niwclear a'r prinder bwyd a dwr ffres; mae'n dywyll yn Siapan yng nghanol yr holl ofidiau a phroblemau. Soniodd hefyd am Libya a'r ymgyrchoedd sy'n digwydd yn y fan honno; cyfeiriodd yn benodol am ddigwyddiadau dros nos yn sgil penderfyniadau'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n dywyll yn Libya yng nghanol y gofidiau a'r ofnau. Beth sydd ei angen? Gobaith yn Siapan, a Heddwch yn Libya. Trwy gymryd powlen o Ddwr Gobaith llwyddodd y Gweinidog, gyda chlwtyn a chryfder braich, i olchi i ffwrdd tywyllwch Siapan a dod â phatrwm a lliw yn ôl i'r wlad; yn yr un modd golchodd tywyllwch Libya i ffwrdd â Dwr Heddwch. O dan y tywyllwch dudew daeth lliwiau cymdeithas, trefn a chysur yn ôl yn fyw!

Yng nghanol mis dathlu ein Nawddsant, addas oedd mai 'cenedl' oedd thema Adnodau'r Oedolion fore heddiw. Cafwyd ystod eang o ddyfyniadau o'r Ysgrythur ac ambell emyn. **Y Cylch Mawl a Addoliad** sy'n trefnu Themâu'r Adnodau, ynghyd â Defosiwn y Plant. Prif

nod y Cylch yw ceisio sicrhau fod cyfle i blant, ieuenctid ac oedolion yr Eglwys roi o'u doniau i gyfoethogi'n hoedfaon.

Y Cyfrifiad (Llun: *Census in Bethlehem* gan Pieter Bruegel the Elder (1525-1569)) oedd yn ennyn sylw'r Gweinidog yn ei bregeth bore heddiw. Trwy gyfeirio at Exodus a II Samuel, daeth y Gweinidog i'r canlyniad mai peth hynod beryglus yw cynnal cyfrifiad! Nid faint ohonom sy'n bwysig yng ngolwg Duw ond maint ein cyfraniad. I fesur cenedl, dylid mesur maint ei chyfraniad i'r byd; ***nid wrth nifer ei chynulleidfa mesurir eglwys leol ond wrth faint parodrwydd ei haelodau i wasanaethu Duw a chymdeithas***; ac os am fesur person, dylid mesur maint y cyfraniad yn y gwahaniaeth a wna ym mywyd eraill. Aeth ymlaen i'n hatgoffa, yng ngolwg Duw, nad maint a rhif sy'n bwysig ond ymroddiad, disgyblaeth, myfyrdod, gweddi, menter, gweledigaeth, delfryd ac anturiaeth. Cyfeiriodd y Gweinidog at ein Hadroddiad Blynyddol; dengys pob haelioni cyllidol gariad at yr Achos, ond nid yw'r Adroddiad yn dangos gafael yr Efengyl arnom! Mynegir hynny mewn cyfrannu distawach a drutach, hael ar ddawn ac egni, mewn gweddi a hyfforddi, mewn ffyddlondeb a dycnwch, mewn maddau, cyd-ddioddef a chyd-ddyheu. Yn ôl y cyfrannu hwn mae gwir fesur eglwys. "Onid rhyfedd i Iesu gael ei eni yng nghanol cyfrifiad?", gofynnodd y Gweinidog. Dim o gwbl! Pan oedd bobl yn cael eu cyfrif er mwyn i Gesar Awgwstws fesur nerth ei ymerodraeth daeth Duwdod, mewn baban, i'n byd. Cyfeirir at hyn yn soned Waldo Williams (1904-1971) - *Yn Nyddiau'r Cesar* - a ddarllenwyd ar ddiwedd yr Oedfa. Dyna linyn mesur Duw - lleiaf y maint, mwyaf y grym! **Canlyniad mesur cenedl, eglwys neu berson gydag unrhyw linyn mesur arall yw pwer heb rym, capel heb grefydd ac unigolion llawn o ddim.**

'Roedd Pregeth y Bore yn rhan o'r Gyfres o Fyfyrdodau mae'r Gweinidog yn ei baratoi ar ein cyfer wrth i ni agosáu at Y Pasg. Cysylltu'r Nadolig â'r Wythnos Fawr a wna'r gyfres. Y sêr-ddewiniaid a Mair, Mam Iesu, yn ein cynorthwyo i gychwyn Taith y Grawys yr wythnos ddiwethaf; bore heddiw, deall pam y ganwyd Iesu yng nghanol cyfrifiad yn ein hannog ninnau i fesur ein cyfraniad. I'n cynorthwyo ar ein taith 'roedd golygfa a thirlun newydd yn ein disgwyl yn ffrynt y capel. Bellach, a'r daith wedi cychwyn, daethom i ganol yr anialwch a geiriau William Williams (1717-1791) yn atsain o'n cwmpas: *"Pererin wyf mewn anial dir, yn crwydro yma a thraw, …"* (*C.Ff.* 682). Beth sydd mewn anialwch? Dim! Dim ond llwch a llonyddwch llethol. Beth sydd mewn anialwch? Cyfle! Cyfle ynghanol drysni'r diffeithwch i ganfod Duw. Ar ein Taith Grawys cawn ein hatgoffa yng nghanol profiadau chwerw'r anialwch, fod Duw gyda ni. Yn ystod y dydd, cawsom, mewn eiliad dawel gyfle i feddwl am rywrai sydd heddiw'n cerdded *mewn anial dir* a

chynnau cannwyll gweddi, a'u cyflwyno, neu gyflwyno ein hunain i ofal Duw.

Mewn pregeth ysgubol yn Oedfa'r Hwyr fe'n hatgoffwyd o eiriau'r Salmydd: *"Wele, ni huna ac ni chwsg ceidwad Israel"* (Salm 121:4). Nid yw'r dydd yn darfod wrth i ni orwedd i lawr i gysgu! Bob bore deffrown i ofal bythol effro ein Duw; byddwn yn byw a bod yn y gofal cyson hwnnw trwy'r dydd; pob nos cysgwn yng ngwawl yr union ofal a fu'n ein cynnal a'n cadw trwy'r dydd. Credai'r Fam Theresa mai peth da oedd cymryd amser ar ddiwedd dydd i edrych ar ein dwylo: beth fu'r ddwylaw yn gwneud heddiw? yn ystod yr wythnos a aeth heibio? Cynnig edrych ar ein dwylo a chyffesu, gyfle cwbl gadarnhaol: Pobl Dduw ydym a'n dymuniad yw cael bod yn well pobl i Dduw. Ar ddiwedd diwrnod a *"wnaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenychwn ynddo"* (Salm 118:24) oherwydd nid mesur ein hunain a wnawn ond rhoi cyfle i Dduw ein mesur. Ein tueddiad yw cydio mewn gwendidau; Nighthawks gan Edward Hopper (1882-1967)canolbwyntio ar fethiannau. Anghofiwn, mor aml, mae hanfod perthynas Duw â ni yw ei Gariad Ef, nid ein drygioni ni. Yn y llun *Nighthawks* (gan Edward Hopper (1882-1967)) ceir pedwar mewn Ty Coffi a hithau'n nos. Tri yn sipian coffi ac yn methu wynebu'r nos. Yn oedi, rhag iddynt ar ôl gadael ddod wyneb yn wyneb â'u hofn a'u hunigrwydd. Un o'r tri a'i gefn tuag atom - rhag i ni adnabod ein hunain yn ei wyneb? Mae pawb ohonom, ar adegau, yn cuddio rhag y nos! *"Wele ni huna ac ni chwsg ceidwad Israel"* - fe'n hatgoffwyd gan y Gweinidog sut bynnag mae arnom, ildiwn ein hunain i Dduw, yn y gobaith sicr y bydd y nerth a'n daliodd mor ddiogel hyd heddiw, yn para byth i'n harwain, ein cynnal a'n cadw. Ni huna ac ni chwsg ein Ceidwad!

Ar ôl treulio Sul yng nghwmni Teulu Minny Street a derbyn cymaint o fendithion a chysur, braf oedd ymlacio gyda'n gilydd a chymdeithasu mewn sgwrs am weithgareddau'r dydd dros swper mewn bwyty Eidalaidd. Unwaith y mis, o dan nawdd **Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol** cynhelir **Koinonia Hwyrol**. Cyfle, yng nghwmni'r Gweinidog, i drafod nifer o bynciau mewn amgylchedd llai ffurfiol - weithiau rhywbeth a godwyd mewn pregeth, dro arall digwyddiad yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Braf iawn oedd croesawu aelod newydd i'n plith heno.

Cydymdeimlo – 19 Mawrth 2011

Bu farw ein aelod hynaf, **Miss Gwyneth Morgan**, heddiw a hithau wedi dathlu ei chanfed penblwydd ym Mis Medi. Cofiwn yn ddiolchgar amdani a chydymdeimlwn â phawb o'i chydnabod.

Cristnogaeth 21 – 18 Mawrth 2011



'Roedd nifer o aelodau Eglwys Minny Street yn bresennol heno mewn cyfarfod wedi'i drefnu o dan nawdd **Cristnogaeth 21** yng Nghapel Salem, Treganna. Sefydlwyd Cristnogaeth 21 gan griw

bychan o weinidogion a lleygwyr a oedd yn awyddus i weld dehongli hanfodion Cristnogaeth radical ar gyfer y ganrif gyfredol. Bwriad y fforwm yw rhoi llais i ystod eang o safbwyntiau diwinyddol Cristnogol er mwyn miniogi a chyfoethogi'r meddylfryd Cristnogol Gymraeg. Cynhelir **Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21** ar **21 Mai 2011**, eto yng Nghapel Salem, Treganna. Y gwr gwadd fydd yr Athro Dave Tomlinson, awdur Cristnogol blaengar a phoblogaidd iawn. Cytunwyd trefnu cyfres o gyfarfodydd yn y brifddinas i gynnig fforwm i drafod syniadau, safbwyntiau ac argymhellion yr Athro Tomlinson o Fis Medi 2011 ymlaen.

Munud i Feddwl – 16 Mawrth 2011

Siapan, Libya a Bahrain – prif newyddion yr wythnos! Tensiynau! Cyfyngderau! Nid oes gennym, fel Pobl Dduw, hawl i anwybyddu dioddef a dyheadau ein brodyr a'n chwiorydd. Beth allwn ddweud? Beth ddylaswn ddweud? Cynnig y Gweinidog Dair Stori i'n cynorthwyo a'n cyfeirio yn ei Funud i Feddwl wythnosol.

Y Gymdeithas: Noson dan ofal Cefyn Burgess - 15 Mawrth 2011

Noson ddiddorol yn llawn hiwmor yng nghwmni Cefyn Burgess – brodor o Fethesda a gwehydd adnabyddus, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y byd i gyd. Gwelsom enghreifftiau niferus o'i waith cywrain, yn olrhain hanes a daearyddiaeth trwy gyfrwng cwiltio, brodwaith ac ati. Cawsom nifer o hanesion a straeon difyr iawn am gapeli yng Nghymru, tu hwnt i Glawdd Offa a hefyd yr Amerig. Cawsom y fraint o weld enghreifftiau niferus o wahanol fathau o gwiltiau, er enghraifft rhai crefyddol a rhai Americanaidd.

Bydd arddangosfa o'i waith yn y Bae yng Nghanolfan y Mileniwm ac yn y Pier Head yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.Cynhelir Cinio Pen Tymor y Gymdeithas Ddiwylliannol ***Nos Iau, 31 Mawrth 2011***

Y Cylch Dinasyddiaeth – 15 Mawrth 2011

Malawi, Rwmania … Cymorth Cristnogol, Masnach Deg, Banc Bwyd Caerdydd … anrhegion i'r digartref … reis a chawl! Cynnig y rhestr anghyflawn hon enghreifftiau o'r gwledydd, mudiadau, pobl a gweithgarwch bu'r **Cylch Dinasyddiaeth** yn ymwneud â hwy yn ystod y chwe mis diwethaf. **Dydd Gwener, 25 Mawrth 2011 am 12:30**, cynhelir ***Cinio Cawl Cynnil*** yn Festri Minny Street er budd Cymorth Cristnogol - cyfle, yng nghanol ein digonedd, i uno â Christnogion gwledydd Prydain i feddwl am ein brodyr a'n chwiorydd ledled y byd.

Siapan a Sul Cyntaf y Grawys – 13 Mawrth 2011

Fe'n harweiniwyd gan y Gweinidog ar ddechrau pob un o'n tair oedfa heddiw i feddwl am, a myfyrio ar, y ***ddaeargryn a'r tsunami yn Siapan.*** Gwnaethom hyn gan gyflwyno trigolion y wlad i ofal Duw Dad:

"Gwelsom y lluniau ond mae'r difrod a'r llanastr, y poen a'r torcalon yn ddyfnach na'n dychymyg. Sut mae addoli a gweddïo yng nghysgod sefyllfaoedd fel hyn? Gwyddom, heb ddeall yn iawn; ac felly, er bod geiriau'n cloffi, cyhoeddwn nad teyrn dideimlad yw Duw, yn mathru pobl yn ôl ei fympwy. Y gair a ddefnyddiai Iesu wrth gyfarch Duw – Duw Sanctaidd, Tragwyddol a Hollalluog – oedd y gair *Abba*, y gair a ddefnyddia plentyn bach wrth siarad â'i dad. Yn yr un gair bach hwnnw, gwelwn nad anfon ac achosi dioddefaint y mae Duw, ond ei fod yn cyd-ddioddef â ni, ei blant ym mhob man. Addolwn heddiw mewn ffydd – mae Duw gyda phobl Siapan, yn y fan lle maent, yn rhan o'u sefyllfa ar hyn o bryd, ac ar waith ynddo. Gweddïwn gyda'n calon led y pen ar agor mewn cydymdeimlad; ar i Dduw gynnal ei bobl yn eu hymdrechion i gynorthwyo mewn ffydd, gweddi a gwaith nawr, ac yn eu parodrwydd i barhau i gynorthwyo pan fydd sylw ein cyfryngau'n yn symud ymlaen i sefyllfaoedd newydd, a thrafferthion gwahanol:

Dduw Dad, Abba, lle mae trychineb wedi gwneud bywyd yn faich annioddefol, dyro dy oleuni - estyn dy ddwylo clwyfedig i fendithio, iachau ac adfer dy bobl. Estynnwn ein dwylo a'n calonnau dros y moroedd, gan ddeisyf arnat Arglwydd i ddefnyddio dy bobl i sychu dagrau dy blant yn Siapan, i wasgar eu hofnau a chynnal eu hysbryd. Gwna ni oll, Arglwydd yn ddiamynedd - yn ddiamynedd am yr amser pan adnewyddir yr holl greadigaeth - "Yna gwelais nef newydd a daear newydd: oherwydd yr oedd y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf wedi mynd heibio, ac nid oedd môr mwyach ... Fe sych bob deigryn o'u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar, na llefain, na phoen.**"** (Datguddiad 21: 1 a 4a) *Amen***"**

Gwenno Brychan Hughes oedd yn arwain ein Haddoliad Cynnar a chawsom, llond festri ohonom, ganolbwyntio ar Gariad Crist. Clywsom am dröedigaeth Saul o Tarsus cyn cael ein harwain mewn dehongliad o gymal cyfarwydd o Lythyr Cyntaf Paul at yr Eglwys yng Ngorinth: ***"y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad."*** **(1 Corinthiaid 13: 13)** (Llun: *Faith, Hope and Charity* gan Henry Holiday (1839-1927) yn Eglwys y Santes Fair, Kirkby Lodsdale) Eglurwyd y gwahaniaeth rhwng *agape*, cariad Duw, ac *eros*, cariad personol. Estynnodd hyn gyfle i ni hunanofyn: a ydyw'n cariad tuag at eraill yn ddigonol? Llwyddwyd i gyplysu'r drafodaeth hon â'r ffaith mai heddiw oedd Sul Cyntaf y Grawys - cyfnod o hunanholi a hunanwerthuso wrth i ni gychwyn teithio tuag

at ddigwyddiadau'r Pasg. I'r rhai hynny oedd yn bresennol ym Myfyrdod Cyntaf y Grawys yng nghapel Eglwys y Crwys nos Iau diwethaf, gwelwyd hefyd y cysylltiad â Chariad Duw'r Tad fel ei dangoswyd yn hanes Jona a Dameg y Mab Afradlon.

Trwy gymorth a gweledigaeth ein Gweinidog cawsom gyfle yn ystod y dydd i gychwyn ar ein taith bersonol dros ***Dymor y Grawys***. Ymbil y Salmydd: *"Dysg i mi dy ffordd, O Arglwydd*" (Salm 27:11a). Sylweddolwn mai taith yw'r Grawys a'i bod yn bwysig bod ystyr a phwrpas i'n taith bersonol wrth ymlwybro tua'r Pasg. Cwbl ofer yw crwydro'n ddiamcan; mae'n wastraff ar ein hamser a'n hynni. Y mae i bob taith ei nod - ei phen draw; anelu at gyrraedd y nod hwnnw a wna unrhyw deithiwr. Onid y pen draw sy'n rhoi ystyr a phwrpas i'r teithio? I'n cynorthwyo ar ein taith arweiniodd y Gweinidog ni i fodel o gyffiniau Jerwsalem wedi ei adeiladu yn ffrynt y capel. Heddiw, estynnwyd gwahoddiad i ni i gynnau cannwyll i nodi dechrau Taith Grawys Minny Street; gweithred a fu'n gyfle i rai ohonom, ar yr un pryd, gynnau cannwyll dros deulu a ffrindiau - arwydd o'n gofal drostynt, ein balchder ohonynt neu, efallai, ein hiraeth amdanynt.

"Chwi rai anffyddlon, oni wyddoch fod cyfeillgarwch â'r byd yn elyniaeth tuag at Duw" **(Iago 4: 4)** 'Rydym bellach wedi cyrraedd Pennod 4 o Lythyr Iago; dywed y bedwaredd adnod rywbeth wrthym am ein hymateb fel Cristnogion, yn unigolion ac fel eglwysi, i'n perthynas â'r byd. Wrth ddadansoddi yn ein Hoedfa Foreol y berthynas unigryw hon, yn gyntaf ar lefel bersonol, defnyddiodd y Gweinidog gerdd hyfryd Robert Frost (1874-1963), *Stopping by Woods on a Snowy Evening*. Ynddi ceir disgrifiad o brydferthwch byd a'r munudau euraid hynny lle cawn ymdeimlo â hyfrydwch bywyd. Ond y tu hwnt i'r prydferthwch hwn gwyddom am hagrwch tlodi a thrais, a budreddi rhyfel a gormes. Mynna'n Ffydd ein bod yn mynd i'r afael â'r pethau hyll hyn: er rhyfeddod a godidowgrwydd y goedwig a'r eira rhaid i'r Cristion barhau â'i daith a'i waith - *"I have promises to keep … miles to go*", yw geiriau olaf y gerdd. Nid oes modd gwahanu person o'i fyd ac amhosibl hefyd gwahanu'r Eglwys o'r byd. Pan beidia'r Efengyl a bod yn berthnasol i holl gymhlethdod bywyd beunyddiol, yn genedlaethol, yn ddiwylliannol, yn wleidyddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, nid Efengyl mohoni! "Gwyn fyd yr Eglwys", meddai'r Gweinidog, "pan gyhoedda, fel y Proffwydi, wrth deyrn a brenin, llywodraeth ac ymerodraeth: *"**fel hyn y dywed yr Arglwydd***"".

Gydag ychydig o syndod y bu i ni wrando ar y Gweinidog yn darllen, ar ddechrau Oedfa'r Hwyr, Hanes y Doethion yn darganfod a dilyn Seren Bethlehem. Bwriad y Gweinidog dros yr wythnosau nesaf yw cysylltu'r Nadolig â'r Pasg, yng nghyd-destun Tymor y Grawys. Cynigiodd y Gweinidog bod y ***sêr-ddewiniaid yn dymuno ein cynorthwyo gyda'r Grawys*** trwy ein hatgoffa bod yn rhaid wrth ddisgyblaeth. Cyfnod o ymdrech, ymroddiad a

disgyblaeth yw'r Grawys. Dymuna'r sêr-ddewiniaid ein cynorthwyo gyda'r Grawys trwy ein hatgoffa nad ofer y sonnir am fywyd y Cristion fel brwydr. Weithiau yn frwydr yn erbyn anawsterau allanol, ond hefyd yn frwydr gyson yn erbyn llacrwydd personol, ymroddiad anwadal a disgyblaeth gyfnewidiol. Nid dim ond y doethion a ddymuna ein cynorthwya! Dymuna Mair ein cynorthwyo gyda'r Grawys hefyd, trwy ein hatgoffa nad da yr arfer i sôn am Gristnogaeth; Pobl Crist ydym a rhaid dilyn ei esiampl. ***Dymuna Mair ein cynorthwyo gyda'r Grawys*** trwy ein hatgoffa nad athrawiaeth uniongred na chyfundrefn eglwysig yw cynnyrch Efengyl ei Mab Iesu Grist, ond Pobl Crist sy'n dylanwadu ar gymdeithas ac ar fyd. Nid yw Cristnogaeth o ddim gwerth i'r Iesu; mae ei bobl werth y byd iddo! Dymuna Mair ein cynorthwyo gyda'r Grawys trwy ein hatgoffa mai'r unig fyw a ddymuna Iesu yw cael byw ynom. Amod hynny yw ildio iddo: *"Y mae'n rhaid iddo Ef gynyddu ac i minnau leihau."* (Ioan 3:30) (Llun: *Christ takes leave of his Mother* gan Corregio (1470-1534))

Dyfnallt, John Dyfnallt Owen (1873-1956), oedd ***Emynydd y Mis*** yn ein Hoedfa Hwyrol. Gweinidog, bardd, llenor, newyddiadurwr ac Archdderwydd Cymru. Bu'n Olygydd *Y Tyst* am dros chwarter canrif, ac yn weinidog yn Eglwys Sardis, Pontypridd a thra oedd yno enillodd goron Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1907 ar ' *Y Greal Sanctaidd'*. Heno buom yn canolbwyntio ar bedwar o'i emynau: *"Cymer atom, ein Creawdwr, Ymddiriedwn ynot Ti"* (Caniedydd 437); *"Rhyfeddu 'rwyf, O Dduw, dy ddyfod yn y cnawd"* (C.*Ff.* 283); *"Ymwêl â ni, O! Dduw, Yn nerth yr Ysbryd Glân"* (Caniedydd 231); ac *"Yr wyf am fyw, a byw i Ti, O! Dduw, a roist y reddf i mi"* (Caniedydd 180).

Heno, daeth ein gweithgarwch ***Pythefnos Masnach Deg*** i'w derfyn. Mae'r Cylch Dinasyddiaeth wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod fel eglwys yn gweithredu ein hymrwymiad fel Eglwys Masnach Deg. Cafwyd cyfle yn ystod y dydd i brynu pob math o nwyddau Masnach Deg (llun), bu'r plant a'r plantos yn chwilio am wybodaeth ar bosteri a thaflenni am Fasnach Deg, a sicrhawyd digonedd o fyrbrydau bananas Masnach Deg rhwng y ddwy oedfa foreol! Erys un gweithgarwch ar waith am wythnos arall: **Mastermind Masnach Deg Minny Street**. Mae'n amlwg nad yw'n fwriad gan y Cylch Dinasyddiaeth i ni laesu dwylo!

Dydd Gwener, 25 Mawrth 2011, cynhelir ***Cinio Cawl Cynnil*** yn y Festri, er bydd Cymorth Cristnogol. Yr amser cinio hwnnw byddwn yn ymuno â Christnogion, eu teuluoedd a'u ffrindiau, ar draws gwledydd Prydain i ginio o gawl tra ar yr un pryd atgoffa ein hunain o'r tlodi a'r anghyfiawnder cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd a ddigwydd ar draws ein byd.

Gair Pos Mis Chwefror: **Gwanwyn**

Taith Gerdded: Coed Nantfawr a Chronfeydd Dwr Llanisien - Mawrth 12

Wrth gerdded yn hamddenol drwy Goed Nantfawr fore heddiw 'roedd pawb yn cytuno mor lwcus yw'r brifddinas o gael cymaint o ddaear las yn ei chanol! Wedi gadael y ffordd fawr yn ymyl Ysgol Uwchradd Caerdydd mae'r llwybr yn dirwyn drwy amrywiaeth o hen goed cynhenid lle mae'r nant yn ffurfio pyllau bach hwnt ac yma. O fewn dim 'roedd dwndwr y ddinas wedi peidio a dim ond trydar adar i'w glywed. Llwybr sy'n arwain tuag at y Cronfeydd Dwr yn Llanisien yw hwn ac 'roedd hi'n gwbl dangnefeddus yno fore heddiw wrth i ni gylchu'r llyn. Codwyd ffens o gwmpas yr ail lyn a gwagiwyd y dwr ohono gan adael gwely o fwd. Bu cryn drafod yn y wasg ers rhai blynyddoedd, gyda'r ardalwyr a'r cadwraethwyr yn gwrthwynebu i'r perchnogion adeiladu tai ar y safle. Mae'r Amod Cadwraeth a osodwyd ar y tir a waddolwyd i'r ddinas gan yr Ardalydd Bute yn sicrhau na ddifethir y gwerddonau hynny.

Wedi cerdded am bron ddwyawr roedd archwaeth at ginio yn Nhy Bwyta'r Tri Bwa. Gyda'r Gwanwyn eisoes i'w weld yn y tir a'r Haf yn brysur agosáu bwriedir trefnu taith gerdded yn fisol o hyn ymlaen.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: Cyfarfod y Cyngor - 11-12 Mawrth 2011

Mae Eglwys Minny Street yn aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Dros y deuddydd diwethaf bu Cyngor yr Undeb yn cyfarfod yng Ngregynog, ger Y Drenewydd. ***Y Rhaglen Ddatblygu*** gafodd y prif sylw a mawr oedd y gwerthfawrogiad o glywed am yr holl ddatblygiadau, llawer o gamau bychain and ambell gam mawr, sy'n digwydd o fewn ein heglwysi ledled Cymru. Nid oes amheuaeth bellach nad oes yna arwydd o gyffro ymysg ein heglwysi; aeth Cynrychiolwyr y Cyfundebau adref mewn positifrwydd nas teimlwyd ar ddiwedd Cyfarfodydd y Cyngor ers rhai blynyddoedd. Bu Adrannau'r Cyngor yn trafod nifer o faterion eraill hefyd: Eglwysi Di-weinidog; *CYTÛN*; Dyfodol S4C; CYSAGau Cymru ac Addysg Grefyddol yn ein hysgolion; Hawliau Ieithyddol ac Ysbrydol Henoed mewn Cartrefi Preswyl; Etholiad y Cynulliad a Chyffes Accra. Aelodau'r Cyngor yng NgregynogMae dau aelod o Gynulleidfa Minny Street yn perthyn i'r Cyngor:

Huw Jones, yn aelod wedi ei gyfethol gan y Gynhadledd Flynyddol, a Hefin Jones, yn rhinwedd bod yn Gadeirydd Pwyllgor Staffio'r Undeb. Mae Hefin, ynghyd â chyd-ddiacon iddo, Margaret Davies, hefyd yn aelodau o Bwyllgor Gweinyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Bydd adroddiadau o drafodaethau'r Cyngor yn ymddangos ar dudalennau'r ***Tyst*** ac ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ystod yr wythnosau nesaf.

Myfyrdod y Grawys: *Y Grawys a'r Tad* - 10 Mawrth 2011

Cynhaliwyd y cyntaf o'r gyfres flynyddol, o dan nawdd ***Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd***, o **Fyfyrdodau'r Grawys** yng nghapel Eglwys y Crwys heno. Trwy'r cyfarfodydd daw cyfle, yng nghwmni Pobl Crist o eglwysi eraill Cymraeg y ddinas, i baratoi ein hunain ar gyfer digwyddiadau'r Wythnos Fawr a dathlu Atgyfodiad Iesu. Y Parchedig Lona Roberts, un o aelodau Eglwys y Crwys, oedd yn arwain. Trwy gyflwyno dau hanes, un o'r Hen Destament a'r llall o'r Testament Newydd, cawsom gyfle i fyfyrio ar Gariad, Trugaredd a Gras Duw.

Hanes cyfarwydd **Jona fab Amittai**: Jona yn gwrthod gwrando ar orchymyn Duw ac yn ffoi i Tarsis; yn cael ei daflu i'r môr a'i lyncu gan "*bysgodyn mawr*" (Jona 1:17); yn mynd i Ninefe ar yr ail ofyniad a rhybuddio pobl y ddinas "*Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe*" (Jona 3: 4). Trodd bobl Ninefe at Dduw a chyhoeddi ympryd a gwisgo sachliain ac ni wnaethpwyd niwed i'r ddinas. Teimlodd Jona fod Duw wedi ei adael i lawr ac fe bwdodd! - "*Yr oedd Jona'n anfodlon iawn am hyn a theimlai'n ddig*" (Jona 4:1) Er i Jona osgoi cyfrifoldeb a gwrthod ymateb i orchymyn Duw, cafodd faddeuant gan ei Arglwydd. Eto, pwdu a digio a wnaeth pan ddangosodd Duw ei gariad a'i drugaredd i drigolion Ninefe. (Llun: *Jonah Praying before the Walls of Nineveh* gan Rembrandt van Rijn (1606-1669))

Y Mab Afradlon (Luc 15: 11-32) oedd yr ail hanesyn i dderbyn ein sylw; hanes y Tad a'i ddau Fab. (Llun: *The Return of the Prodigal Son* gan Rembrandt van Rijn) Canolbwyntio ar ymateb y Mab Hynaf a wnaethom; yntau yn gweld chwith bod cymaint o wledda a llawenhau, a'r llo pasgedig yn cael ei baratoi, ar ddychweliad y mab a wastraffodd bopeth. **Estyn Tymor y Grawys gyfle i ni hunanholi**. Pa sawl gwaith y bu i ni ymddwyn fel Jona a'r Mab Hynaf - pwdu a chredu i Dduw ein siomi; osgoi cyfrifoldeb; anfodloni gan nad ar ein cyfer ni y paratowyd y llo pasgedig? Pa sawl gwaith y bu i ninnau fethu gweld gwyrth a gwerth Cariad Duw'r Tad?

Bydd cyfarfod nesaf Myfyrdodau'r Grawys yng nghapel Eglwys Bethel, Rhiwbeina ar **Nos Iau, 24 Mawrth 2011**. *Y Grawys a'r Mab* bydd yn ennyn ein sylw'r noson honno.

Cylch Cyllid yn dweud '*Diolch*' – 10 Mawrth 2011

Derbyniwyd yn ddiolchgar, yng nghyfarfod y **Cylch Cyllid**, y newyddion da bod holl waith gwella'r eiddo a berthyn i Eglwys Minny Street wedi'i orffen, a bod y cyfan wedi'i dalu amdano! Mynegwyd diolch gan y Cylch i aelodau'r Eglwys am eu haelioni mewn cyfnod cyllidol anodd, ac i aelodau'r Cylch Adeiladu am lywio'r gwaith ar ein rhan. Bydd unrhyw incwm a ddaw o'r datblygiadau o gymorth mawr yn y blynyddoedd nesaf wrth i ni fynd ati, o dan arweiniad ein Gweindiog, i ddatblygu gwaith a thystiolaeth yr Eglwys ymysg ein haelodau a thrigolion Y Waun Ddyfal.

Munud i Feddwl – 9 Mawrth 2011

Braidd yn annisgwyl efallai ond ar ddydd Mercher y Lludw, dydd cyntaf Tymor y Grawys, mae'r Gweinidog yn eich gwahodd i gyd-fwyta ag ef! Cynnig ddewis i chi hefyd! *Happy Meal* yr hen ffermwr enwog hwnnw, neu gymdeithas a chwmni gwledd gyda chyd-aelodau a chyd-Gristnogion? ***Gwledd ac Ympryd*** - beth sydd â hyn i'w wneud â'n Ffydd? Ffeindiwch allan trwy ddarllen **Munud i Feddwl** y Gweinidog?!

PIMS yn ymweld â Cambodia! – 7 Mawrth 2011

Heno, bu Mari McNeill, gwirfoddol-wraig o **Gymorth Cristnogol** yn ymweld â ni i sôn am ei phrofiadau o dreulio pythefnos yn ne-ddwyrain Asia, yng Nghambodia (neu Kampuchea fel ei gelwid ar un adeg). Mae Cambodia yn ffinio â Gwlad Thai i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin, Laos i'r gogledd-ddwyrain a Fiet Nam i'r dwyrain a'r de-ddwyrain. Poblogaeth y wlad yw 14 miliwn. Prif nodweddion tirlun Cambodia yw'r Afon Mekong a'r Tonlé Sap ("*y llyn dwr ffres*"). Bwdhaeth yw'r brif grefydd, a'r brifddinas yw Phnom Penh. Cawsom glywed gan Mari am waith ***Mith Samlaanh*** ("*Ffrindiau*" yn y Gymraeg). Cymdeithas yw hon a sefydlwyd ym Mis Awst 1994 i weithio gyda Plant y Stryd, eu teuluoedd a'u cymunedau, yn Phnom Penh. Nòd y gwaith yw addysgu plant a phobl ifanc ynglyn â HIV, iechyd, gwaith, dinasyddiaeth a sgiliau byw; hynny yw cynnig annibyniaeth iddynt a'u gwneud yn aelodau gweithgar o'r gymuned. Clywsom hefyd am ***Gymdeithas Ieuenctid Khmer*** (*Khmer Youth Association*) a sefydlwyd yn 1992 fel mudiad dyngarol, anwleidyddol a rhydd o'r llywodraeth i weithio ym meysydd datblygiad, rhyw, hawliau dynol, yr amgylchedd a democratiaeth.

Nid gwrando yn unig fu ***PIMS*** yn ei wneud! Gyda

naw aelod brwdfrydig yn bresennol cafwyd trafodaethau pellgyrhaeddol ar nifer o faterion yn ymwneud â'r wlad. Buom yn trafod y fasnach fanana - beth yw ein dyletswydd ni yng Nghymru, ac yn Eglwys Minny Street, i sicrhau masnach deg i ffermwyr Cambodia? Beth am lwgrwobrwyo a llygredigaeth ymysg arweinwyr y wlad? - cymharwyd yr hyn sy'n digwydd yn Cambodia i'r hyn a ddigwydd oddi mewn i'n sefydliadau, awdurdodau a diwydiannau yng Nghymru a gwledydd Phrydain. Codwyd cwestiwn anghyfartaledd - bu trafod brwd ar sut y gall y Cristion sicrhau bod pawb, beth bynnag eu cefndir a'u trâs, yn cael eu trin fel Plant Duw.

Yn dilyn ***PIMS*** hynod addysgiadol, difyr a bendithiol, braf oedd cael cyfle ar ôl y cyfarfod i ymlacio, dal i fyny a chadw'r cysylltiad dros gwpaned o goffi yng nghwmni rhai o gyn-aelodau ***PIMS***, sydd bellach yn ein Prifysgolion, mewn orig wedi ei threfnu gan y Gweinidog.

Dathlu Dewi, Derbyn Aelod Newydd, Bedydd a Masnach Deg – 6 Mawrth 2011

Bu heddiw yn ddiwrnod prysur yn Eglwys Annibynnol Minny Street! Ein hemyn cyntaf yn Oedfa'r Bore oedd *"Diolch, diolch, Iesu …"* (Anad. *cyf.* Enid Morgan *C.Ff.* 147) a dyna wnaethom trwy gydol y dydd - diolch am gynhaliaeth, diolch am gyd-aelodau a gwyrth y Creu, diolch am frodyr a chwiorydd ledled y byd, a diolch am ein cenedl. Gyda nifer o'r plant a'r plantos yn eu gwisgoedd Cymreig, a llabedi yn drwm o gennin a Chennin Pedr, amhosibl oedd peidio meddwl am ein Nawddsant Dewi, ei fuchedd a'i neges. Bu athrawon yr Ysgol Sul wrthi'n brysur yn cyplysu ein Ffydd â Chymru wrth gychwyn astudio thema'r wythnosau nesaf: ***Y Pasg***.

Cyn symud i'r Festri ar gyfer yr Ysgol Sul bu'r Gweinidog yn gweithio'r plant a'r plantos yn galed yn y Set Fawr wrth iddynt geisio dyfalu beth oedd yn ei gês! Siocled, cynigiodd un, hufen ia, medd un arall … yn y diwedd, cynigiwyd blodau a dyna oedd yr ateb cywir! Soniodd y Gweinidog am wneuthuriad blodyn rhosyn; pob petal yn wrthrych prydferth a chain, yn ddarn o gelfyddyd - ambell betal yn fwy ei faint nac arall. Ond, er mor brydferth y petalau unigol ni welir gwir odidowgrwydd y blodyn heb fod y petalau yn tyfu gyda'i gilydd ac uno'n un blodeuyn. Ac felly ninnau fel eglwys - pob aelod, pob plentyn yn betal prydferth; gyda'n gilydd medrwn greu rhosyn nad oes ei brydferthach! Aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio sut, yn Oedfa'r Bore, yr oedd yna ddau betal newydd yn dod yn rhan o rosyn Eglwys Minny Street: petal derbyn Buddug Rees yn aelod

wrth iddi gyflwyno ei llythyr cymeradwyaeth o Eglwys Ebeneser, Trefdraeth, a phetal ychydig yn llai ei faint wrth i ni dystio i fedydd **Gwion Ellis Rees**, mab Buddug ac Owen (Yr Eglwys Newydd), a brawd i Awena a Bethan.

Canolbwyntio ar Fasnach Deg buom yn ei wneud yng ngweddill Oedfa'r Bore. I'n hatgoffa o'n ymrwymiad fel Eglwys Masnach Deg 'roedd aelodau'r **Cylch Dinasyddiaeth** wedi bod wrthi yn addurno ffenestri'r capel a thu nôl i'r Pulpud â nwyddau Masnach Deg.

I'n harwain i fyfyrio ar egwyddor masnachu teg arweiniwyd ni gan y Gweinidog i ystyried y cerwbiaid a welid ar ddeupen Arch y Cyfamod yn y Tabernacl yn yr anialwch, ac yn Nheml Solomon yn Jerwsalem. Ar y naill ben a'r llall o Arch y Cyfamod gosodwyd cerwb wedi ei lunio o aur- "*Y mae dwy adain y cerwbiaid i fod ar led, fel eu bod yn gorchuddio'r drugareddfa; y mae'r cerwbiaid i wynebu ei gilydd*" (Exodus 25:20). 500 mlynedd yn ddiweddarach, safai cerwbiaid yn Nheml Solomon yn Jerwsalem: "*Yr oedd y cerwbiaid hyn yn sefyll ar eu traed yn wynebu at i mewn*" (2 Cronicl 3:13). Hynny yw, 'roedd cerwbiaid y Deml yn wynebu'r wal - gan edrych i ffwrdd o'i gilydd! Pam y gwahaniaeth? Cynigiodd y Gweinidog bod cyfeiriad edrychiad y cerwbiaid yn y Deml Cerwbiaid Teml Solomonyn fodd i gyfeirio ffyddlondeb y bobl, eu dysgu a dangos iddynt beth oedd Duw yn dymuno ganddynt. Amhosibl gwneud Ewyllys Duw gyda'n golygon "*yn wynebu at i mewn*". Yn 2011, gofynnodd y Gweinidog, onid un peth, yn anad dim, sy'n tarfu ar y gwaith o adeiladu gwell byd yw parodrwydd yr ychydig i "*wynebu at i mewn*" ac ymelwa ar draul y mwyafrif. Geilw Duw arnom i godi llais yn erbyn pob anghyfiawnder, i ddefnyddio'n golud i sicrhau gwell byd i bawb, i wynebu ein gilydd, i weld ein gilydd ac i gydnabod ein gilydd. Cynnig Masnach Deg fodel economaidd amgen byd-eang yn seiliedig ar yr argyhoeddiad nad yw masnach a thegwch yn nacau ei gilydd. Fe'n dwysbigwyd i holi'n hunain wrth ganu geiriau Eddie Jones (*C.Ff.* 872): *"Wyt ti'n hunanol yn hawlio'r bwyd i gyd? Wyt ti'n crafangu am fwy na'th ran o hyd? … Cofia di mai Duw sydd yn rhoi i ni."*

Mynd â ni i Fethlehem Effrata a wnaeth y Gweinidog yn Oedfa'r Hwyr a'n tywys at eiriau cyfarwydd o Broffwydoliaeth Micha: "A *thithau. Bethlehem Effrata, er dy fod yn fechan ... eto ohonot ti daw allan i mi un i fod yn llywydd*" (Micha 5:2). Geiriau a gysylltwn â'r Nadolig fel arfer ond cynnig Bethlehem Effrata neges i Gymru ym Mawrth 2011! Soniodd y Gweinidog am gysylltiadau hanesyddol Bethlehem - yma codwyd cofadail i Rachel (llun) (Genesis 35: 19-20); mewn cae ger Bethlehem bu Ruth a Naomi

yn llofa (Ruth 2:2); yma y ganwyd Dafydd; yma hefyd, ganwyd Iesu, i fod yn llywydd pobl Duw drwy'r oesoedd. ***"er dy fod yn fechan"*** - ordeiniwyd cenedl gan Dduw i gyflawni Ei fwriad. Trwy arddel cenedl cydnabyddwn un o egwyddorion athrawiaeth Gristnogol am Dduw. Atgoffwyd ni o hanes y wraig fu'n sâl am flynyddoedd a gyffyrddodd â mantell Iesu

(Llun: Luc 8: 43-48 - ar furiau tanddaearol Catacwmau Rhufain); yn union fel yr oedd Iesu'n ymwybodol o'r wraig yng nghanol y dyrfa felly hefyd mae Duw yn ymwybodol o'n cenedl yng nghanol cenhedloedd y byd. ***"eto ohonot ti y daw allan i mi"*** - atgoffa Proffwydoliaeth Micha mai camgymeriad dybryd yw barnu ar yr olwg gyntaf. Digon diymadferth yw baban ond neges Micha, y Nadolig, y Bregeth ar y Mynydd, y Bwrdd, y Groes a'r Bedd Gwag yw y dylid gofalu cyn cyhoeddi pwy sydd gryfaf! ***"un i fod yn llywydd"*** - mae'r byd yn aflonyddu ac o'n cwmpas mae pob lliw a llun o aflonyddwch. Mae angen llywydd arnom! Saif Mawrth 2011 rhwng Nadolig 2010 a Phasg 2011. Estyn y Nadolig a'r Pasg gyfle i ildio'n bywyd i Ewyllys Duw, a cheisio o'r herwydd gynganeddu bywyd ein cenedl â'r Gwirionedd sydd ymhlyg yng ngeiriau Proffwydoliaeth Micha.

Wrth ein harwain at Fwrdd y Cymun myfyrio ar waith is-bwyllgor a wnaeth y Gweinidog. Fel arfer, aelodau hwn a ddisgwylir i wneud y gwaith, i ddatrys y drafferth a chynnig ffordd ymlaen. Onid dyna ydyw'n gwaith ninnau fel aelodau eglwys leol? Ar hyd y canrifoedd bu Garmon, Dyfrig, Illtud, Gildas, Melangell, Tysilio a Dewi, William Salesbury, John Penri, Gruffudd Jones, William Williams Pantycelyn, Ann Griffiths, Elfed, Lewis Valentine, Gwenallt, Waldo ac ugeiniau o saint eraill yn brysur cadw'r Ffydd yn nydd yr argyfwng, yn cynnau a chynnal tân yng nghalonnau ac eneidiau pobl ledled y wlad. Traddodwyd i ni, Is-bwyllgor 2011, y gwaith nid yn unig o gynnal y tân, ond ei ledu. "*Ac wedi'r Cymun cawsom sgwrs wrth y tân, A soniodd Ef wrthym am Drefn naturiol Duw ... Dywedodd mai Duw a luniodd ein cenedl ni I'w bwrpas Ef Ei Hun, Ac y byddai ei thranc yn nam ar y Drefn honno*" (allan o *Dewi Sant* gan Gwenallt (1899- 1968); *Eples* Gwasg Aberystwyth Cyf. 1951) Ymunodd aelod a oedd yn methu bod yn bresennol gyda ni, yn ei chartref, i gydgyfranogi yn y bara a'r gwin trwy'r Cymun Teithiol.

Braf oedd cymdeithasu ar ôl Oedfa'r Hwyr a chael cyfle, dros gwpanaid, i sgwrsio a thrafod gweithgarwch y dydd. I'r rhai hynny ohonom sy'n derbyn ***Y Tyst***, 'roedd geiriau cywydd y Prifardd Robat Powell yn mynd trwy'r meddwl wrth i ni yfed ein coffi - *"Cofiwch ym myd eich cyfoeth Sut 'leni daeth coffi coeth O bridd y llwm i'ch bwrdd llawn; A gafwyd hwn yn gyfiawn?*" (allan o *Cywydd y Coffi Teg*, *Y Tyst* Cyfrol 144(9) 3 Mawrth 2011; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg). Fel arfer, 'roedd yna stondin â nwyddau Masnach Deg ar werth, a sicrhawyd bod copïau o gwestiynau **Mastermind Masnach Deg Minny Street** ar gael i unrhyw unigolyn neu deulu o gynulleidfa Eglwys Minny Street sydd am gystadlu am y teitl aruchel hwn!

Llinell, sgwâr a chiwb oedd pynciau trafod ***Wedi 7*** heno. Symud o un dimensiwn i dri! O wneud hyn gellir ceisio ymgyrraedd, o leiaf, at fywyd llawn a chyfoethog. Llinell, sgwâr a chiwb - bywyd corfforol, ymenyddol ac ysbrydol. Mae fwy i fywyd na'r corfforol a materol; ond er cyfoethoced ychwanegu'r ymenyddol, gallwn fod yn gorfforol ac ymenyddol fyw heb fod yn ysbrydol fyw. Buom yn trafod cwestiynau megis: **a oes pwynt ac a oes pwrpas i fywyd? A yw bywyd yn symud tuag at nôd? Beth yw diben bywyd? Beth yw ffydd? Ai cyffur yw crefydd?** Llinell, sgwâr a chiwb - rhaid cyfuno'r tri. Crëir ciwb o sgwariau, a chrëir y sgwariau o linellau. Bywyd corfforol, ymenyddol ac ysbrydol - y tri yn un, a'r un yn dri! Rhaid meithrin y tri, o fethu gwneud hynny fe wywa'r tri. Ar ôl y fath drafodaeth pa ryfedd i'r cyrri a'r cannelloni - a'r crempogau, siwgr a lemwn - flasu'n arbennig o dda!



Rhan o ystod gwaith **Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol** yw hyrwyddo presenoldeb Eglwys Minny Street yn y gymuned ac un ffordd o wneud hyn yw sicrhau ein bod, fel aelodau o Eglwys Iesu Grist, yn ymarfer stiwardiaeth dda o'r Cread. Ers rhai wythnosau bellach bu'r Cylch wrthi yn ymgyrchu i hyrwyddo "***rhannu ceir***"; pam defnyddio tri char i ddod a thri aelod i oedfa pan gall un wneud y tro yn iawn?! Bore heddiw, bu aelodau'r Cylch wrthi yn codi ysbwriel oddi ar Minny Street a strydoedd cyfagos - syndod sylweddoli cymaint o ganiau, papur newydd, gorchuddion nwyddau a thebyg sy'n cael eu taflu heb unrhyw ystyriaeth o gwbl i'r niwed amgylcheddol a wnânt.

Y cerflun **Crist yn Gwenu** sy'n denu sylw **ac Ati …** y mis hwn; ystyried **iaith rhoi a derbyn** a wna'r Gweinidog ym **Myfyrdod y Mis**. Eisoes dosbarthwyd **Rhifyn Mis Ionawr** o'r ***Aelod*** i fwyafrif ein haelodau – rhifyn sy'n cynnwys, ynghyd a nifer o adroddiadau am ddigwyddiadau ac ati, englynion dathlu Huw Euron yn ennill y Rhuban Glas, gwaith llenyddol rhai o'n pobl ifanc a dewis hoff emyn un o'n haelodau.

Apêl Undeb yr Annibynwyr i Dde Affrica 2008-2009 - 4 Mawrth 2011

Powlenni'r Apêl (wedi'u gwneud gan Wola Nani)
Mae Cymorth Cristnogol wedi rhyddhau **ffilm** yn diolch i'r Annibynwyr Cymraeg am godi £206,000 i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yn Ne Affrica. Dyma oedd **Elusen Eglwys Minny Street** yn 2008-2009 a bu nifer o aelodau'r eglwys yn gweithio'n galed i rannu gwybodaeth, trefnu gweithgarwch a chasglu nawdd. Cynnig y ffilm gyfle i gyfarfod rhai o'r teuluoedd y bu i aelodau Eglwysi Annibynnol, a phobl, Cymru trwy eu cefnogaeth, wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd – 4 Mawrth 2011

'Pa sawl torth sydd gennych?' Dyna oedd thema neges chwiorydd Chile ar gyfer **Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd** a gymerodd lle brynhawn heddiw, Dydd Gwener cyntaf Mis Mawrth. Creuwyd tapestri arbennig gan Norma Ulloa, o Chile, i hyrwyddo'r thema (ceir disgrifiad manwl o'r brodwaith **yma**). Cynhaliwyd y gwasanaeth i Chwiorydd Eglwysi

Cymraeg Caerdydd yng Nghapel Eglwys y Crwys a dilynwyd rhaglen wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg gan Nan Lewis, Peniel. (*Tapestri o waith Norma Ulloa (1933-2010)*)

Cawsom hanes bywyd yn Chile - poblogaeth o 16 miliwn; 86% yn Gristnogion a 5% yn dilyn credoau brodorol. Iaith y wlad yw'r Sbaeneg ond mae nifer o ieithoedd eraill yn cael eu siarad hefyd. Mae merched Chile yn cynrychioli un rhan o dair o weithlu'r wlad; mae yna dlodi enbyd yn rhannau o'r wlad. Gwlad hardd; dangoswyd i ni sleidiau o fywyd yn y wlad a chlywed cerddoriaeth Chile yn y cefndir ar ddechrau'r gwasanaeth.

Cymerwyd rhan gan chwiorydd o eglwysi'r ddinas a chafwyd anerchiad pwrpasol ar y thema *'Pa sawl torth sydd gennych?*' - bara yw'r prif fwyd yn Chile. ***'Beth yw eich rhoddion? Beth allwch chi ei rannu?'*** Cwestiynau i ni gyd i fyfyrio yn ddwys arnynt. Aethom allan i heulwen braf Mis Mawrth a gan gymryd darn o fara o fasgedi rhai o 'r chwiorydd a oedd wedi gwisgo siolau amryliw tebyg i'r rhai a wisgir gan ferched Chile myfyrio ar eiriau ein gweddi wrth gloi yr oedfa: "*Y mae Duw yn cynnig cyflawnder i'r byd. Y mae Iesu Grist yn ein gwahodd at Fwrdd sy'n croesawu pawb ac arno ddigon o fara i bawb … rhannwn ein llawenydd a'n tristwch; ein gobeithion a'n breuddwydion. Gweddïwn gyda'r byd a thros y byd …*"

Babimini yn Dathlu Gwyl Ddewi - 4 Mawrth 2011

Bu babanod a rhieni yn dathlu Gwyl Ddewi yn ***Babimini*** fore heddiw. Yn fabanod a phlant bach daeth criw bywiog ynghyd wedi'u gwisgo mewn gwisg Gymreig a dillad coch i ddathlu Gwyl ein Nawddsant.

Yn ystod y bore cafodd y rhai bach gyfle i wneud Cenhinen Bedr o bapur, gwrando ar ganeuon traddodiadol Cymraeg a mwynhau danteithion o Gymru, oedd yn cynnwys caws Cymreig, pice ar y maen a bara brith. Daeth y bore i ben gyda sesiwn o ganu hwyliog. Cyn ymadael, cafodd bob plentyn rodd arbennig - llwy garu fechan - i nodi'r achlysur arbennig.

Mae croeso i fabanod a phlant o dan dair oed ynghyd a'u rhieni/gofalwyr ymuno â ni bob Bore Gwener rhwng 0945 a 1115.

Munud i Feddwl – 2 Mawrth 2011

Mae rhai pethau nad oes newid arnynt! 'Roedd yna aflonyddwch yng Ngardd Eden ganrifoedd yn ôl, mae yna aflonyddwch yn y Dwyrain Canol heddiw! Mae pob un ohonom yn gymysgedd ryfedd o'r cryf a'r gwan. Wrth inni benderfynu adeiladu ein bywyd naill ai ar graig ein cryfderau neu ar dywod ein gwendidau cynnig cyngor a wna'r Gweinidog yr wythnos hon yn ei **Funud i Feddwl**.

Oedfa Gwyl Ddewi - 1 Mawrth 2011

'Roedd y Festri'n llawn heno wrth i ni ddathlu Gwyl ein Nawddsant mewn ysbryd o ddefosiwn. Thema'r gwasanaeth oedd ***perthynas***; natur perthynas y Cristion â'i genedl, â'i gyd-ddyn ac â Duw.Dechreusom wrth feddwl am ein perthynas â'n cenedl, ei gorffennol, ei phresennol a'i dyfodol gyda nifer o gerddi amrywiol: *Fy Mabinogi i* (Mererid Hopwood) a *Cofio* (Waldo Williams 1904-1971) i ddathlu'r gorffennol, *Nid Welsh wyf i ond Cymro* (Gwyn Edwards) i beri inni ystyried ein presennol a sut Gymry ydym ni, ac fel gweddi dros y dyfodol, emyn Lewis Valentine (1893-1986) *Dros Gymru'n Gwlad*. (Llun: "Un funud fach cyn elo'r haul ...." (Cofio gan Waldo))



Yr ail berthynas i'w hystyried oedd ein perthynas â'n cyd-ddyn; wrth garu pobol dangoswn ein bod yn caru Duw. Darllenwyd *Addewid ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost* (Gwyneth Lewis) a chawsom nifer o ddarlleniadau o'r Efengyl: *Hebreaid 11: 32-40, Mathew 7: 13-23* a *Ioan 4: 19-24*. Cyffesodd y Gweinidog ei fod yn gasglwr o bopeth yn ymwneud ag Abraham Lincoln! Clywsom un stori arbennig am y gwr mawr yn cwyno wedi oedfa nad oedd y pregethwr wedi gofyn i'w gynulleidfa wneud unrhyw beth mawr a roddai urddas i'r natur ddynol. ***Anogodd Dewi Sant ni i wneud y pethau bychain; o'u gwneud yn iawn gwnawn rywbeth mawr fydd yn dangos maint a dyfnder ein Ffydd.***

Trwy'r dydd bu eglwysi Annibynnol Cymru yn ymateb i wahoddiad **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** i agor eu drysau a chynnal orig o ddefosiwn, o weddi ac o ymbil dros Gymru, ein cenedl a'n gwlad. Heno, cawsom ninnau yn Eglwys Minny Street gyfle i ymuno mewn gweddi *"dros ein cenedl a'i phobl … dros ein hysgolion, colegau a phrifysgolion; dros sefydliadau cyhoeddus … dros ddiwydiannau a'u gweithwyr; dros gefn gwlad; dros y cyfryngau, dros fudiadau diwylliannol, llenorion, beirdd, arlunwyr a cherddorion; dros ysbytai ... dros bawb sy'n gweinyddu'r gyfraith; dros y tlawd, y digartref a'r di-waith; … a thros ledaeniad Teyrnas Dduw yn ein plith*" (addasiad o *Ein Cenedl a'i Phobl* gan Elfed ap Nefydd Roberts; *Amser i Dduw*, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Gyf. 2004).

Trefnwyd ein Hoedfa Gwyl Ddewi gan Y Gymdeithas Ddiwylliannol. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar **Nos Fawrth, 15 Mawrth 2011** am 1930 pryd bydd ***Cefyn Burgess (Bethesda a Vermont)*** yn cynnig dehongliad mewn celf i o rai o Gapeli Cymru.